# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

COFNODION Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrth 08/12/2020 ar Zoom am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Catrin Roberts (Cad) | Arfon Hughes | Gruffydd Williams | Caren Jones | Rhys Tudur |
| Sharon Williams | Cai Rees Jones | Lleucu Jones | Mared Llywelyn Williams | Pat Humphreys (Clerc) |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Guto Williams, Gwynfor Jones, Rhys Llewelyn, Alaw Llewelyn Roberts, Carys Roberts, Janice Evans

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol**
   Caren Jones – Cais Cynllunio Maes Teg, Edern
   Gruffydd Williams – Ceisiadau Cynllunio
   Rhys Tudur – Cyflwyniad Llyr
   Arfon Hughes – Cyflwyniad Llyr
   Sharon Williams – Cynnig yn galw am graffu ar yr ail gartrefi sy'n trosi yn eiddo anomestig

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Zoom 10/11/2020
   Penderfyniad: derbyn yn gywir
   Cynnig: Sharon Williams  Eilio: Rhys Tudur

4. **Unrhyw Fater Brys**
   **Cyflwyniad gan Llyr Hughes Fferyllwyr Llyn**.
   Cafwyd cyflwyniad gan Llyr Hughes ynglyn â'r sefyllfa sydd wedi codi rhwng Fferyllfa Nefyn a Ty Doctor Nefyn. Mae Ty Doctor wedi dechrau darparu gwasaneth danfon prescriptiwn i'w cleifion yn yr ardal ers mis Gorffennaf, fel y mae Fferyllfa Nefyn yn ei wneud ers peth amser ac mae Llyr Hughes yn pryderu for y ddau wasanaeth yn croisi eu gilydd. Bwriad Llyr Hughes oedd codi ymwybyddiaeth CTN o'i bryderon a diolchwyd iddo am y wybodaeth.
   **Gwaith angenrheidiol i'r drol cludo sets a'r 3 fainc ar y Lôn Gam –** Gruffydd Williams
   Mae amcanbrisiau wedi eu derbyn i baratoi a peintio'r 3 fainc gyntaf ar y Lôn Gam, ac am baratoi a phaentio'r drol.
   **Rhodfa'r Môr - trwshio'r lôn – Gruffydd Williams**
   Mae'r lôn ym mhen draw Rhodfa'r Môr mewn cyflwr gwael iawn, yn llawn tyllau ac er eu bod yn cael eu llewni o bryd i'w gilydd buan iawn mae hi'n ol yn y cyflwr yma.
   Penderfyniad: Gruffydd Williams i gael amcanbrisiau am y gwaith erbyn pwyllgor Ionawr
   Cynnig: Arfon Hughes  Eilio: Rhys Tudur
   **Baner 'Diolch' Morfa**
   Mae Baner 'Diolch' Morfa wedi cael ei falu yn y gwynt yr wythnos yma ac wedi diflannu. Mae'r baneri yma wedi cael eu rhoi i fyny yn Nefyn, Morfa Nefyn ac Edern ers yr haf yn diolch i bob gweithiwr allweddol.
   Penderfyniad: Y clerc i archebu baner 'Diolch' arall i Morfa Nefyn
   Cynnig: Mared Llywelyn Williams  Eilio: Rhys Tudur

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts • 07880 737298

**E-bost Siop Sglodion Morfa Nefyn**
Darllenwyd E-bost Siop Sglodion Morfa Nefyn allan yn y cyfarfod. Nid oeddynt wedi cael cynnig i gyfrannu tuag at coeden nadolig Morfa Nefyn eleni fel y gwnaeth busnesau eraill y pentref ac 'roeddent yn siomedig iawn am hynny. Eglurwyd iddynt mai nid CTN oedd wedi trefnu hyn ac erbyn hyn maent wedi cael y cyfle i gyfrannu ond maent yn cynnig erbyn y flwyddyn nesaf y dylai pob busnes yn y pentref gael y cyfle i gyfrannu ac fe nodwyd cynnwys yr e-bost ar gyfer y dyfodol.
**LLwybr lleiniau – diweddariad – Arfon Hughes & Gruffydd Williams**
Yn dilyn cyfarfod mis Tachwedd mae Arfon Hughes wedi tynnu lluniau o'r meinciau ac wedi eu anfon i'r clerc. Mae Cliff Hughes wedi torri'r llwybr at y meinciau ac o gwmpas y meinciau ac mae Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau eu bod yn disgwyl am brisiau i gario mlaen gyda'r gwaith ac erbyn y gwanwyn hyderir y bydd yn llwybr yn agored.
**Grantiau newydd ar gyfer canol trefi – Diweddariad** - Gruffydd Williams
Diweddarwyd y pwyllgor ar y grantiau:

1. Mae potiau blodau y tripods yn edrych yn ffafriol ac yn mynd i gostio tua £700 yr un felly am geisio cael 2 neu 3 ohonynt.
2. Mae tacluso Garej Trenholmes wedi cael ei awgrymu ond tydio ddim yn edrych yn debyg eu bod yn mynd i ariannu rhwng £2,000 a £3,000 o welliannau ar eiddo rhywun arall.
3. Mae Gruffydd Williams wedi cysylltu gyda'r adran eiddo i gael pris am wella Toiledau Cefn y Twr.

5. **Pecyn Ymwybyddiaeth Iaith –** diweddariad – Rhys Tudur
Yn dilyn cyfarfod gyda Mentrau'r Iaith ble 'roedd Rhys Tudur, Mared Llywelyn Williams a Rhys Llewelyn yn bresennol cafwyd cais i dreialu cynllun i arddangos posteri mewn busnesau ac ystafelloedd gweigion ar Stryd Fawr Nefyn, sydd yn datgan ac yn rhoi ymwybyddiaeth i bobol o broffil ieithyddol yr ardal.
Penderfyniad: Pasiwyd i dreialu'r cynllun.
Cynnig: Rhys Tudur Eilio: Sharon Williams

6. **Cynnig yn galw am graffu ar yr ail gartrefi sy'n trosi yn eiddo anomestic –** Rhys Tudur
Cynnig yw hwn yn galw am graffu mwy effeithiol ar ail gartrefi sy'n trosi eiddo anomestic i osgoi talu treth cyngor. Yr unig beth mae'r perchnogion yn gorfod ei wneud yw llenwi ffurflen yn hunan-ardystio bod y ty yn cael ei osod am 70 diwrnod o'r flwyddyn ac ar gael i'w osod am 140 diwrnod o'r flwyddyn a'i anfon i'r Valuation Office.
Penderfyniad: Pasiwyd y cynnig a Rhys Tudur i ddrafftio llythyr i'r Llywodraeth a'r Valuation Office a'i yrru i'r aelodau yn gyntaf.
Cynnig: Rhys Tudur Eilio: Gruffydd Williams

7. **Ffurflen Flynyddol 2019-2020 – cymeradwyo -** Clerc
Cafodd yr aelodau gopi o'r ffurflen flynyddol gyda'r agenda a cyfle i fynd drwyddi.
Penderfyniad: Pasiwyd bod y ffurflen flynyddol yn gywir
Cynnig: Rhys Tudur Eilio: Arfon Hughes

8. **Cyllideb –** Arfon Hughes & Clerc
Atebwyd y pwyntiau a godwyd yn y cyfarfod diwethaf sef:

1. Nid oes angen rhoi arian ar gyfer y clwb ieiuenctid ar y gyllideb gan fod arian 2020-2021 heb gael ei ddefnyddio.
2. Sharon Williams i ddod nol at y clerc gyda manylion arian y llyfrgell.
3. Nid oes digon o le ar gyfer storio dogfennau CTN yn y llyfrgell felly cario mlaen yn Siop Siarad fyddai orau.
4. Mae hi'n mynd i gostio mwy i greu un swydd nac ydyw i dalu'r gwahanol ymgymerwyr i wneud yr holl waith felly cario mlaen fel arfer fyddai orau.
5. Dim rhoi arian ar gyfer yr estyniad i fynwent Nefyn ar y gyllideb ond cael tendars am y gwaith ac unai defnyddio arian claddu o'r reserves neu cael menthyciad.

**9. Mynwent Morfa Nefyn –** Clerc
Dim diweddariad felly ei roi ar agenda mis Ionawr.

**10. Gweplyfr CTN**
Agenda pwyllgor Ionawr gan mai Alaw Llewelyn Roberts oedd wedi codi'r mater ac nid yw yn bresennol heno.

**11. Ceisiadau Cynllunio**

- **C20/0931/42/DT –** 9 Maes Terfyn, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd. LL53 6EQ – Estyniad ac addasiadau i ddarparu ystafell ymolchi ac ystafell wely hygyrch ynghyd a chreu llain galed o flaen yr eiddo – **ymateb wedi cael ei anfon i'r Adran Gynllunio gan fod y 21 diwrnod wedi dod i ben** - Dim Gwrthwynebiad
- **C20/0898/42/DT –** Ty Pen, Lôn Las, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd. LL53 6BG – Cynlluniau Diwygiedig - Estyniadau a newidiadau i dy presennol – **ymateb wedi cael ei anfon i'r Adran Gynllunio gan fod y 14 diwrnod wedi dod i ben** - Gwrthod – Gor-ddatblygiad o'r safle.

**Ceisiadau Diweddarach**

- **C20/0948/42/DT** - The Studio Lôn Goch, Edern, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6JD - Dymchwel ystafell haul bresennol ac ail godi, darparu estyniad i gynnwys grisiau cyswllt rhwng y llawr daear a'r cyntaf – yr aelodau i adael i'r clerc wybod eu sylwadau cyn y 21/12/2020
- **C20/0946/42/DT -** Maes Teg Lôn Cae Glas, Edern, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8YT - Estyniadau ac addasiadau – Dim gwrthwynebiad.

**12. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc - £935.24
- Nefyn Foods – Rent Siop Siarad - £780.00
- N Power – Trydan Llyfrgell Mis Medi - £79.98
- Designer Signs – Baner 'Hawl I Fyw Adra' - £64.80
- Catrin Roberts – Ad-daliad Tyddyn Sachau - £157.95
- D. M. Parry – Pumed taliad mynwent Nefyn £850.00 & Pumed taliad mynwent Morfa Nefyn £170.00 & Ail daliad mynwent Fron £145.00 = £1165.00
- Cliff Hughes – Taliad 8 LLwybrau £1558.33 & gwaith ychwanegol £190.00 = £1748.33
- Cyngor Gwynedd – Cyfraniad tuag at y toiledau cyhoeddus 2020-2021 - £12000.00

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts • 07880 737298

- Ashley Hughes – offer swyddfa - £7.80
- Mrs P E Humphreys – Ad-daliad inc i'r printer - £27.00
- BT – Llyfrgell Nefyn - £0.08
- Snowdonia Fire & Security – Larwm Llyfrgell Nefyn wedi canu - £60.00
- E-on – Trydan Siop Siarad – Medi, Hydref a Tachwedd yn defnyddio 'actual readings' am y tro cyntaf ers 3 mlynedd - £796.73

  Penderfyniad: Talu pob anfoneb

  Cynnig: Rhys Tudur Eilio: Cai Rees Jones

**Anfonebau sydd wedi cael eu talu:**

- Dwr Cymru – Mynwent Nefyn - £19.10
- One Stop Promotions – Polyn a fflag Ysgol Edern - £144.00
- Tyddyn Sachau - £585.92
- John Gwynfor Jones – Angladd Peter Lewis Jones - £450.00
- HM Revenue & Customs – PAYE - £61.74

**13. Taliadau wedi eu derbyn:**

- Ad-daliad TAW am y flwyddyn 2019-2020 - £817.44